

Gwybodaeth am Bute Energy

About Bute Energy

Mae Bute Energy yn ddatblygwr parciau ynni gwynt ar y tir a solar yng Nghymru, sy'n defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i ddarparu ynni adnewyddadwy cost isel.

Rydym yn gwmni ynni adnewyddadwy annibynnol sy'n cyfuno profiad ag arloesedd. Ein cenhadaeth yw helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd drwy ddatgloi potensial Cymru ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y tir a dod â manteision i gymunedau yng nghyffiniau ein prosiectau.

Ein huchelgais yw chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o helpu Cymru i bweru ei hun drwy ffynonellau adnewyddadwy a darparu sicrwydd cyflenwad ynni i'w phobl a'i busnesau.

Ein nod yw:

- cynhyrchu cymaint o ynni adnewyddadwy â phosibl o'n safleoedd parc ynni yn ogystal â gwarchod yr amgylchedd a'r trigolion
- dod â manteision hirdymor i gymunedau sy'n lleol i'n prosiectau, drwy Gronfa Budd Cymunedol sy'n cael ei rheoli'n annibynnol
- cefnogi cyflogaeth hirdymor a'r gadwyn gyflenwi leol, yn ogystal â buddsoddi mewn cynlluniau hyfforddi lleol a chyfleoedd prentisiaeth
- datblygu cynlluniau cynaliadwy ar gyfer yr amgylchedd a hamdden sy'n cefnogi ac yn gwella bioamrywiaeth.

Bute Energy is a Welsh developer of onshore wind and solar energy parks, using the latest technology to deliver low-cost renewable energy.

We are an independent renewable energy company, combining experience with innovation. Our mission is to help address the climate crisis by unlocking Wales's potential for onshore renewable power generation, and to bring benefits to communities local to our projects.

Our ambition is to play a leading role in helping Wales power itself through renewable sources and in providing security of energy supply for its people and businesses.

We aim to:

- maximise renewable energy generation from our energy park sites while safeguarding the environment and residents
- bring long-term benefits to communities local to our projects, through an independently managed Community Benefit Fund
- support long-term employment and the local supply chain, and invest in local training schemes and apprenticeship opportunities
- develop sustainable environmental and recreational initiatives that support and enhance biodiversity.



Bute Energy
Parc Ynni Llyn Lort



Bute Energy
Llyn Lort Energy Park

Pam harneisio ynni gwynt?

Why harness wind energy?

Fel gwlad, rydyn ni'n wynebu argyfwng hinsawdd yn ogystal ag argyfwng costau byw.

Mae digwyddiadau byd-eang yn bygwth ein cyflenwad ynni. Mae potensial diben-draw i ynni adnewyddadwy yng Nghymru – yn enwedig o'r gwynt sy'n chwythu ar draws ein bryniau a'n mynyddoedd.

Bydd Parc Ynni Llyn Lort yn cyfrannu at gyflenwad ynni mwy cydnerth a dibynadwy sy'n fawr ei angen ar Gymru, a hynny er mwyn helpu i ddarparu ynni gwyrdd glân i'n cartrefi a'n busnesau a chyrraedd targed Llywodraeth Cymru ar gyfer 100% o drydan adnewyddadwy yng Nghymru erbyn 2035.

Bydd yn cefnogi'r ymdrech i newid o danwyddau ffosil i ynni adnewyddadwy, gan helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn unol â thargedau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol a'r Argyfwng Hinsawdd a ddatganwyd.

As a nation we're in a climate emergency, and a cost-of-living crisis.

Our supply of energy is threatened by world events. There is endless potential for renewable energy in Wales – particularly from the wind that blows across our hills and mountains.

The Llyn Lort Energy Park will contribute to a stronger, more resilient renewable electricity supply that is greatly needed in Wales, to help generate clean green energy for use in our homes and businesses and meet the Welsh Government's target for 100% renewable electricity in Wales by 2035.

It will support the transition from fossil fuels to renewable energy, helping to reduce greenhouse gas emissions in line with local, national and international targets and the declared Climate Emergency.




Bute Energy
Parc Ynni Llyn Lort



Bute Energy
Llyn Lort Energy Park



Bute Energy



Parc Ynni Llyn Lort

Mae Parc Ynni Llyn Lort i'r de-orllewin o Lanerfyl ac i'r gorllewin o Gefn Coch ym Mhowys yn y Canolbarth, ac mae'r safle'n gyfan gwbl o fewn yr Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw ar gyfer Ynni Gwynt yn Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040.

Dewiswyd y lleoliad hwn gennym oherwydd ei addasrwydd technegol ac amgylcheddol, gan fod mynediad da i'r safle, mae cyflymderau'r gwynt y gorau posibl, ac mae datblygiadau ynni gwynt wedi'u sefydlu yn yr ardal.

Bydd Parc Ynni Llyn Lort yn darparu hyd at 165MW o ynni glân a gwyrdd gan ddefnyddio'r dechnoleg tyrbinau gwynt ddiweddaraf – digon i bweru 144,000 o gartrefi gan ddisodli tua 10.1 miliwn tonnell o CO₂ trwy hyd oes weithredol y prosiect.

Bydd yna tua 25 o dyrbinau gwynt, hyd at 220m o uchder i frig y llafn, is-orsaf drydan, adeilad rheoli a mastiau anemomedr parhaol ar gyfer monitro cyflymder gwynt a pherfformiad y tyrbinau. Bydd ein cynigion yn cynnwys ceblau pŵer tanddaear, traciau mynediad i'r safle, gwaith rheoli cynefinoedd, a, lle bo angen, gwelliannau i'r briffordd oddi ar y safle.

Bydd dyluniad manwl y parc ynni yn esblygu dros y misoedd nesaf, gan ystyried yr adborth gan bobl leol ac ymgynghoreion statudol yn yr ymgynghoriad, yn ogystal ag asesiadau amgylcheddol a thechnegol parhaus.

Mae'r cynllun hwn yn dangos ffin y safle.



Bute Energy
Parc Ynni Llyn Lort

Llyn Lort Energy Park

Llyn Lort Energy Park is located southwest of Llanerfyl and west of Cefn Coch in Powys, Mid-Wales, entirely within a Pre-Assessed Area for Wind Energy in Future Wales: The National Plan 2040.

We chose this location because of its technical and environmental suitability, as there is good site access, wind speeds are optimal, and there are established wind energy developments in the area.

Llyn Lort Energy Park will provide up to 165MW of clean, green energy using the latest wind turbine technology – enough to power 144,000 homes while displacing approximately 10.1 million tonnes of CO₂ over the operational lifetime of the project.


It will have approximately 25 wind turbines with a maximum blade tip height of 220m, an electrical substation, control building and permanent anemometer masts for monitoring wind speeds and turbine performance. Our proposals will include underground power cables, site access tracks, habitat management, and, where necessary, off-site highway improvements.

The detailed design of the energy park will evolve over the coming months, taking account of consultation feedback from local people and statutory consultees, as well as ongoing environmental and technical assessments.

This plan shows the site boundary.



Bute Energy
Llyn Lort Energy Park



Gwybodaeth About am y safle the site

Ar hyn o bryd, mae'r safle'n gyfuniad o laswelltir garw, gweundir agored a thir amaethyddol gydag ardaloedd o goetir wedi'u plannu. Mae hanner y safle'n 'dir agored', yn 'dir comin' neu'n 'goedwig gyhoeddus benodedig', gyda mynediad agored.

Mae Llwybr Cenedlaethol Glyndŵr yn rhedeg 3km i'r gogledd orllewin. Ni fydd y prosiect yn effeithio ar lwybrau ceffyl lleol a hawliau tramwy cyhoeddus sy'n croesi'r safle. Mae Canolfan Awyr Agored Red Ridge wedi'i lleoli yng nghanol y safle ond mae wedi'i heithrio o ffin y safle.

Allwedd:


- Ffin ddangosol y safle
- Lleoliadau ddangosol y tyrbinau

The site comprises rough grassland, open moorland and agricultural land with areas of plantation woodland. Half of the site is 'open country', 'common land' or 'public dedicated forest' land, with open access.

The Glyndwr's Way National Trail runs 3km to the north-west. Local bridleways and public rights of way that cross the site will be unaffected by the project. The Red Ridge Outdoor Centre is located in the centre of the site but excluded from the site boundary.

Key:

- Indicative site boundary
- Indicative turbine locations





**Bute
Energy**

Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol a chaniatâd cynllunio

Environmental Impact Assessment and planning permission

Mae Parc Ynni Llyn Lort yn cael ei ystyried yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC). Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ddatblygwyr gyflwyno ceisiadau am ganiatâd i'r asiantaeth Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC), ac yna gwneir y penderfyniadau gan Weinidogion Cymru.

Yn ddiweddar, rydym wedi cyflwyno cais cwmpasu'r prosiect i PCAC, sy'n gofyn yn ffurfiol am arweiniad ganddynt er mwyn llywio ein cynigion. Rydym wedi treulio'r ddwy flynedd diwethaf yn cynnal aseidiadau technegol ac amgylcheddol manwl o'r safle, a byddwn yn parhau i wneud rhagor o waith asesu wrth i ni baratoi ein cais am ganiatâd.

Bydd ein hymgynghorwyr amgylcheddol a thechnegol arbenigol yn paratoi Datganiad Amgylcheddol manwl, a fydd yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr â'r cais cynllunio ddiwedd 2024 pan fyddwn yn cynnal rownd arall o ymgynghori cyhoeddus ar ein cynigion manwl.

Llyn Lort Energy Park is classed as a Development of National Significance (DNS). This means that developers must submit consent applications to Planning and Environment Decisions Wales (PEDW), and decisions are made by Welsh Ministers.

We have recently submitted the project scoping request to PEDW, which formally requests their guidance to inform our proposals. We have spent the past two years conducting detailed technical and environmental assessments of the site, and we will continue this work as we prepare our consent application.

Our specialist environmental and technical consultants will prepare a detailed Environmental Statement, which will be submitted alongside the planning application in late 2024 when we will hold a further round of public consultation on our detailed proposals.



Bute Energy
Parc Ynni Llyn Lort



Bute Energy
Llyn Lort Energy Park



Arolygon Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA)

Environmental Impact Assessment (EIA) surveys

Mae'r broses o gasglu data amgylcheddol cadarn fel rhan o'r AEA yn hanfodol i ddylunio parc ynni sy'n cydbwysu ystyriaethau technegol, amgylcheddol a masnachol.


Mae'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau a thrwy gyfuniad o ymgynghori â phobl a sefydliadau, gwaith arolygu maes ac ymchwil desg, byddwn yn gwerthuso'r canlynol

- y dirwedd ac amwynder gweledol
- priddoedd (gan gynnwys mawn), tir a dŵr
- bioamrywiaeth (gan gynnwys ecoleg ac adareg)
- sŵn a dirgryndod
- mynediad, traffig a thrafnidiaeth
- treftadaeth ddiwylliannol
- newid yn yr hinsawdd
- telegyfathrebu
- llwybrau hedfan
- cysgodion symudol.

The process of gathering robust environmental data as part of the EIA is vital to designing an energy park that balances technical, environmental and commercial considerations.

This work has already started and, through a combination of consultation with people and organisations, field survey work and desk-based research, we will be evaluating

- landscape and visual amenity
- soils (including peat), land and water
- biodiversity (including ecology and ornithology)
- noise and vibration
- access, traffic and transport
- cultural heritage
- climate change
- telecommunications
- aviation
- shadow flicker.



**Bute
Energy**

Cronfa Budd Cymunedol Community Benefit Fund

Byddwn yn buddsoddi yn y cymunedau agosaf at ein prosiectau drwy ein Cronfa Budd Cymunedol sy'n cael ei rheoli'n annibynnol.

Rydym am ddod â buddsoddiad a chefnogaeth i'r cymunedau lleol o amgylch Parc Ynni Llyn Lort. Mae Bute Energy wedi ymrwmo i fuddsoddi £7,500 fesul megawat (MW) o gapasiti cynhyrchu ar ei barciau ynni i'r Gronfa Budd Cymunedol. Ar sail y dyluniadau presennol – gyda chapasiti cynhyrchu arfaethedig o 165MW – gallai hyn golygu cronfa flynyddol o oddeutu £1,237,500.

Mae ein tîm eisoes yn gweithio i ddeall dyheadau'r cymunedau ar gyfer eu hardal ac i ddeall rhai o'r prif heriau sy'n eu hwynebu. Byddwn yn canolbwyntio ar gefnogi grwpiau, elusennau a gwasanaethau lleol gyda chyllid i gynnal ac ehangu eu gwaith a chreu prosiectau arloesol newydd, ac i helpu sefydliadau i gyfuno eu harbenigedd er mwyn datblygu prosiectau i greu gwaddol ar raddfa fawr a fydd o fudd i gymunedau lleol am flynyddoedd lawer.

Dwedwch wrthym sut gallwn ni gefnogi prosiectau a mynd i'r afael â materion yn eich cymunedau, er mwyn i'n prosiectau ddod â budd gwirioneddol i bobl leol.

We'll be investing in the communities closest to our projects through our independently governed Community Benefit Fund.


We want to bring investment and support to the local communities around Llyn Lort Energy Park. Bute Energy has committed to invest £7,500 per megawatt (MW) of generating capacity for its energy parks into a Community Benefit Fund. Based on current designs – with a planned generating capacity of 165MW – this could mean an annual fund in the region of £1,237,500.

Our team is already working to understand communities aspirations for their area and to understand some of the main challenges they face. We will focus on supporting local groups, charities and services with funding to sustain and expand their work and create new innovative projects, and to help organisations combine their expertise to build large scale multi-year legacy projects benefiting local communities.

Let us know how we can support projects and tackle issues in your communities, so our projects can deliver real benefits to local people.



Bute Energy
Parc Ynni Llyn Lort



Bute Energy
Llyn Lort Energy Park



**Bute
Energy**

Cysylltiad â'r grid

Yng Nghanolbarth Cymru, nid oes gan y rhwydwaith trydan presennol y capasiti i gysylltu'r holl ynni adnewyddadwy newydd arfaethedig â chartrefi a busnesau - mae angen seilwaith newydd arnom ar fyrder er mwyn rhoi'r gorau i ddefnyddio tanwyddau ffosil.

Mae Green GEN Cymru yn rhan o Grŵp Bute Energy. Bydd yn adeiladu'r seilwaith trydan newydd sydd ei angen i gysylltu'r ynni adnewyddadwy.

Mae cynigion Green GEN Cymru yn cynnwys is-orsaf 'casglu' a llinell uwchben newydd drwy Ddyffryn Efyrynwy i gysylltu â'r rhwydwaith trydan cenedlaethol yn ardal Lower Frankton yn Swydd Amwythig.

Bydd y cysylltiad yn defnyddio peilonau 27m o uchder. Mae'r rhain yn llai o lawer na'r peilonau roedd y National Grid wedi'u cynnig o'r blaen yn yr ardal - ac o'r herwydd, bydd yr effeithiau gweledol yn llai o lawer. Mae'r is-orsaf casglu yn ucheldiroedd Powys yn llai na hanner maint yr is-orsaf a gynigiwyd yn flaenorol gan y National Grid.

Mae peilonau'n cael eu defnyddio ym mhob cwr o'r byd fel ffordd o gysylltu ynni'n ddiogel, yn ddibynadwy ac yn effeithlon. Defnyddir peilonau yn unol â'r canllawiau polisi cenedlaethol ar gyfer cysylltiadau trydanol.

Mae modd gweld rhagor o fanylion am gynigion Green GEN Cymru yn www.greengenvyrnwyfrankton.com



Bute Energy
Parc Ynni Llyn Lort

Grid connection

In Mid Wales, the existing electricity network does not have the capacity to connect all the planned new renewables to homes and businesses - to end the use of fossil fuels we need new infrastructure and quickly.

Green GEN Cymru is part of the Bute Energy Group. It will build the new electricity infrastructure needed to connect renewable energy.

Green GEN Cymru's proposals include a 'collector' substation and new overhead line through the Vyrnwy Valley to connect to the national electricity network at a point near Lower Frankton in Shropshire

The connection will use 27m tall pylons. These are significantly smaller than the pylons proposed previously in the area by National Grid - any visual effects are significantly less as a result. The collector substation in the Powys uplands is less than half of the size of the substation proposed previously by National Grid.

Pylons are used all over the world as a proven means of connecting energy safely, reliably and efficiently. Using pylons is in line with national policy guidance for electrical connections.

Further details on Green GEN Cymru's proposals can be viewed at www.greengenvyrnwyfrankton.com



Bute Energy
Llyn Lort Energy Park



**Bute
Energy**

**Rydym
eisiau
clywed
eich barn**

**We want
to hear
your views**

Rydym yn ymgynghori â phobl ynghylch ble rydym yn bwriadu rhoi'r tyrbinau, yr adeiladau, y cyfarpar a'r llwybrau mynediad, ac unrhyw faterion penodol yr hoffech i ni eu hystyried wrth ddatblygu ein cynigion.

Cynhelir ein hymgyngoriad â'r cyhoedd rhwng dydd Mercher 6 Medi a dydd Mercher 18 Hydref 2023.

Mae'r manylion llawn ar gael ar wefan ein prosiect www.llynlortenergypark.wales a gallwch hefyd roi eich adborth i ni yno. Mae modd i chi hefyd lenwi ffurflen adborth bapur yn un o'n harddangosfeydd.

Gallwch anfon e-bost atom:
llynlort@bute.energy

Gallwch hefyd ysgrifennu atom yn rhad ac am ddim yn:
FREEPOST LLYN LORT ENERGY PARK

Gallwch ein ffonio am ddim ar:
0800 6525 180

We are consulting people on where we plan to put the turbines, buildings, equipment and access routes, and any specific issues you would like us to take into account.

Our public consultation runs from Wednesday 6 September to Wednesday 18 October 2023.

You can find full details on our project website www.llynlortenergypark.wales where you can also give us your feedback, or you can complete a paper feedback form at one of our exhibitions.

You can email us at:
llynlort@bute.energy

You can write to us free of charge at:
FREEPOST LLYN LORT ENERGY PARK

You can call us free of charge on:
0800 6525 180



Bute Energy
Parc Ynni Llyn Lort



Bute Energy
Llyn Lort Energy Park



Bute
Energy



Beth sy'n
digwydd
nesaf?

What
happens
next?

Byddwn yn ystyried yr holl adborth a ddaw i law o'r ymgynghoriad hwn wrth i ni ddatblygu cynlluniau manwl ar gyfer y parc ynni, ochr yn ochr â'n hasesiadau amgylcheddol a thechnegol, a byddwn yn parhau i siarad â thirfeddianwyr, cymunedau a rhanddeiliaid drwy gydol y broses.

Yna cynhelir cyfnod o ymgynghori statudol yn 2024, pan fyddwn yn ymgynghori â phobl a sefydliadau lleol ar gais cynllunio drafft, gan gynnwys Datganiad Amgylcheddol drafft.

Rydym yn gobeithio cyflwyno ein cais cynllunio terfynol i PCAC ddiwedd 2024, ac wedyn bydd Gweinidogion Cymru yn dod i benderfyniad.

We will consider all feedback received from this consultation as we develop detailed plans for the energy park, alongside our environmental and technical assessments, and we will continue talking to landowners, communities and stakeholders throughout this process.

There will then be a period of statutory consultation in 2024, when local people and organisations will be consulted on a draft planning application, including a draft Environmental Statement.

We expect to submit our final planning application to PEDW in late 2024, after which decisions will be made by the Welsh Ministers.



Bute Energy
Parc Ynni Llyn Lort



Bute Energy
Llyn Lort Energy Park